

Cofnod datgelu: Enillion dynion a menywod

Yn dilyn fy negeseuon e-bost dyddiedig 22 a 23 Mehefin 2016, rwyf yn awr mewn sefyllfa i ymateb i'ch cais am wybodaeth ar 22 Mehefin 2016, sef:

- A fyddech cystal â datgelu'r enillion cymedrig ar gyfer gweithwyr gwrywaidd a'r enillion cymedrig ar gyfer gweithwyr benywaidd am y flwyddyn ddiweddaraf y mae gennych ffigurau ar ei chyfer a dywedwch pa flwyddyn ydyw os gwelwch yn dda;
- A fyddech cystal â datgelu'r enillion canolrif ar gyfer gweithwyr gwrywaidd a'r enillion canolrif ar gyfer gweithwyr benywaidd am y flwyddyn ddiweddaraf y mae gennych ffigurau ar ei chyfer a dywedwch pa flwyddyn ydyw os gwelwch yn dda;
- A fyddech cystal â datgelu nifer y gweithwyr gwrywaidd fesul band cyflog chwartel a nifer y gweithwyr benywaidd fesul band cyflog chwartel, os gwelwch yn dda;
- Os yw o fewn y cyfyngiadau a ganiateir dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a fyddech cystal hefyd â darparu'r ffigurau cyfatebol ar gyfer cwestiynau 1-3 am y cyfnod o 12 mis blaenorol.

Ar 23 Mehefin 2016 fe wnaethoch egluro mai'r hyn yr oeddech yn ei feddwl wrth "enillion" yn nau bwynt bwled cyntaf eich cais oedd y cyflog sylfaenol.

Gwelwch y wybodaeth y gofynasoch amdani yn atodedig.

Nid wyf wedi cymhwyso unrhyw eithriadau. Fodd bynnag, os byddwch yn dymuno cwyno am y ffordd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, anfonwch neges e-bost neu lythyr ataf, os gwelwch yn dda.

Os oes gennych ymholiadau, peidiwch ag oedi rhag cysylltu â mi, os gwelwch yn dda.

Yn gywir

Ian Phillips